




TAKING OVER DAY 2015 REPORT
ADRODDIAD DIWRNOD MEDDIANNU 2015



REPORT CONTENTS	CYNNWYS YR ADRODDIAD	PAGE / TUDALEN
Introduction	Cyflwyniad	2
Taking Over Day at a glance	Cipolwg ar y Diwrnod Meddiannu	3
Achievements	Cyflawniadau	4-6
Innovation: Developing Ideas and Practice	Arloesi: Datblygu Syniadau ac Arferion	7-15
Support and resources	Cefnogaeth ac adnoddau	15-19
Developing participation	Datblygu cyfranogaeth	20-22
Summary	Crynodeb	22
Recommendations	Argymhellion	23

INTRODUCTION

Taking Over Day is a project in which young people in Wales are offered a unique experience of being in charge in a museum, gallery, archive, heritage site or historic home, working alongside staff and being given meaningful roles. Children participate fully in the work of the museum, making decisions and providing valuable contributions.

The fourth Taking Over Day was held on 12th November 2015 and was organised by Kids in Museums, an independent charity dedicated to making museums open and welcoming to all families, children and young people, in particular those who haven't visited before. With a dedicated Board of Trustees and an exciting range of events, partnerships and initiatives, Kids in Museums gives families, young people and children visiting museums and galleries across Britain a dynamic and powerful voice.

The project was funded by Welsh Government: Museums, Archives and Libraries Division.

Kids in Museums recorded information about the events and activities that took place. Feedback from participating and non-participating organisations was gathered via surveys and interviews, Kids in Museums' volunteer reports and social media. Nineteen participating organisations and seven non-participating organisations completed surveys and five participating organisations were interviewed.

CYFLWYNIAD

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n brosiect lle cynigir profiad unigryw i bobl ifanc yng Nghymru o fod yn gyfrifol am amgueddfa, oriel, archif, safle treftadaeth neu dŷ hanesyddol, gan weithio ochr yn ochr â staff a derbyn rolau ystyrlon. Mae'r plant yn cyfranogi'n llawn yng ngwaith yr amgueddfa gan wneud penderfyniadau a chyfraniadau gwerthfawr.

Cynhaliwyd y pedwerydd Diwrnod Meddiannu ar Dachwedd 12fed 2015 a chafodd ei drefnu gan Kids in Museums, sef elusen annibynnol sydd wedi'i ymroddi i wneud amgueddfeydd yn agored ac yn groesawgar i bob teulu, plentyn a pherson ifanc, yn arbennig y rheiny sydd heb ymweld o'r blaen. Gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr unsydd ac amrediad cyffrous o ddigwyddiadau, partneriaethau a mentrau, mae Kids in Museums yn rhoi llais dynamig a phwerus i deuluoedd, pobl ifanc a phlant sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau ledled Prydain.

Ariannwyd y prosiect gan Lywodraeth Cymru: yr Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Cofnododd Kids in Museums wybodaeth am y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd. Casglwyd adborth gan sefydliadau a gymerodd ran a'r rheiny na fu'n cymryd rhan gydag arolygon a chyfweliadau, adroddiadau gan wirfoddolwyr Kids in Museums a'r cyfryngau cymdeithasol. Cwblhawyd arolygon gan bedwar ar bymtheg o sefydliadau a fu'n cymryd rhan, a gan saith o sefydliadau na fu'n cymryd rhan, a rhoddwyd cyfweliad i bump o sefydliadau a gyfranogodd.

46 ORGANISATIONS PARTICIPATED
O SEFYDLIADAU'N CYMRYD RHAN

1001 CHILDREN AND YOUNG PEOPLE TOOK PART
O BLANT A PHOBL IFANC YN CYMRYD RHAN

21 venues took part in the event for the first time
o safleoedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad am y tro cyntaf

1/4 of museums worked in partnership to make a bigger impact
yr amgueddfeydd yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cael mwy o effaith

23 Kids in Museums volunteers assisted museums
o wirfoddolwyr Kids in Museums yn helpu amgueddfeydd

12 organisations took part in Teen Twitter Takeover
o sefydliadau'n cymryd rhan yn y gweithgaredd Meddiannu'r Twitter gan Bobl Ifanc

'This has changed my attitude of being part of a museum. The whole experience was full of facts and fun.'

'Mae hyn wedi newid fy agwedd ynglŷn â bod yn rhan o amgueddfa. Roedd y profiad cyfan yn llawn o ffeithiau a hwyl.'

SOL, AGE 10
SOL, 10 OED



'It was a great way to re-connect with the school and has led to a really exciting new project'

'Roedd yn ffordd wych o ail gysylltu gyda'r ysgol ac mae wedi arwain at brosiect newydd hynod o gyffrous'

LEARNING OFFICER, DYLAN THOMAS CENTRE
SWYDDOG DYSGU, CANOLFAN DYLAN THOMAS

**FAMILY FRIENDLY
MUSEUM
AWARD**

Special Commendation for Outstanding Contribution to their Local Community given to The Winding House as part of the Telegraph Family Friendly Museum Award

Rhoddyd Clod Arbennig i'r Tŷ Weindio am Gyfraniad Eithriadol i'r Gymuned Leol yn rhan o'r Wobr Amgueddfeydd Addas i'r Teulu gan y Telegraph

'We learned that letting young people take the lead in the ideas process can produce very effective and engaging results.'

'Rydym wedi dysgu bod gadael i bobl ifanc gymryd yr awennau yn y broses o daflu syniadau'n gallu cynhyrchu canlyniadau effeithiol a diddorol iawn.'

EDUCATION AND INTERPRETATION OFFICER, CYFARTHFA CASTLE MUSEUM & ART GALLERY
SWYDDOG ADDYSG A DEHONGLI, AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASTELL CYFARTHFA

Museums working with Communities First groups doubled

Dyblodd y nifer o Amgueddfeydd oedd yn gweithio gyda grwpiau Cymunedau yn Gyntaf

Children took over at the Senedd to launch Taking Over Day

Roedd plant yn y Senedd yn meddiannu'r lle i lansio'r Diwrnod Meddiannu

Pupils completed a Taking Over Day Welsh Baccalaureate Challenge for the first time

Cwblhaodd y disgyblion Sialens Diwrnod Meddiannu Bagloriaeth Cymru am y tro cyntaf

ACHIEVEMENTS

Since Taking Over Day began in 2012, there has been a sustained growth in the number of organisations taking part and this year is no different with the total rising from 38 in 2014 to 46 in 2015. Nearly half of these organisations were participating in Taking Over Day for the first time, showing that the project continues to attract a diverse and expanding audience from the museum sector. Museums who, in previous years, have said they did not have time to get involved, put plans in place to ensure that they could take part this year. There were slightly fewer children and young people taking part this year. The reason for this is not known but may be due to more museums working with non-school groups and hard-to-reach young people, where group sizes tend to be smaller.

Participation aims for this year were to encourage:

More archives to take part

- The number of archives involved trebled

Target Communities First areas

- The number of museums working with a Communities First group rose from 11 in 2014 to 20 in 2015

A report '*Culture and Poverty – Harnessing the power of the arts, culture and heritage to promote social justice in Wales*' was made to the Welsh Government by Baroness Kay Andrews OBE in March 2014. Taking Over Day provides a model to implement some of the recommendations by Baroness Andrews, who is a Kids in Museums Trustee. This year, Kids in Museums worked with Communities First Clusters to make a bigger impact on young people by working together. Members of the Taking Over Day team contributed to Pioneer Area meetings in every region, advocated young people's participation within cultural venues and facilitated conversations between potential partners. Working in partnership with Swansea Pioneer Area, a new hard copy and online resource was created to enable museums to work with Communities First clusters to make a bigger impact.

CYFLAWNIADAU

Ers i'r Diwrnod Meddiannu gychwyn yn 2012, cafwyd tyfiant parhaus yn y nifer o sefydliadau a gymerodd ran ac mae'r flwyddyn hon yn dilyn yr un patrwm gyda'r cyfanswm yn codi o 38 yn 2014 i 46 yn 2015. Roedd bron i hanner y sefydliadau yma'n cymryd rhan yn y Diwrnod Meddiannu am y tro cyntaf, gan ddangos bod y prosiect yn dal i ddenu cynulleidfa amrywiol sy'n ehangu o'r sector amgueddfeydd. Aeth amgueddfeydd a ddywedodd mewn blynyddoedd blaenorol nad oedd ganddynt yr amser i gymryd rhan, ati i roi cynlluniau ar waith i sicrhau y gallent gyfranogi eleni. Roedd ychydig yn llai o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan eleni. Ni wyddwn y rheswm am hyn ond efallai ei fod yn ymwneud â'r ffaith bod mwy o amgueddfeydd yn gweithio gyda grwpiau nad ydynt yn ysgolion a phobl ifanc anodd eu cyrraedd, lle mae meintiau grwpiau'n tueddu bod yn llai.

Yr amcanion o ran cyfranogaeth eleni oedd annog:

Mwy o archifau i gymryd rhan

- Treblodd y nifer o archifau a gymerodd ran

Targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

- Cynyddodd y nifer o amgueddfeydd oedd yn gweithio gyda grŵp Cymunedau yn Gyntaf o 11 yn 2014 i 20 yn 2015

Lluniodd y Farwnes Kay Andrews OBE adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014 ar '*Ddiwylliant a Thlodi – Harneisio pŵer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*'. Mae'r Diwrnod Meddiannu'n darparu model i weithredu rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Farwnes Andrews sy'n un o Ymddiriedolwyr Kids in Museums. Eleni, gweithiodd Kids in Museums gyda Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gael mwy o effaith ar bobl ifanc drwy gydweithio. Cyfranogodd aelodau o'r tîm Diwrnod Meddiannu mewn cyfarfodydd Ardaloedd Arloesi ymhob rhanbarth, gan gefnogi cyfranogaeth pobl ifanc mewn safleoedd diwylliannol a hwyluso sgysiau rhwng sefydliadau a allai ffurfio partneriaethau. Trwy weithio mewn partneriaeth ag Ardal Arloesi Abertawe, crewyd adnodd ar-lein a chopi caled newydd i alluogi amgueddfeydd i weithio gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn bod yn fwy effeithiol.

After a member of the Kids in Museums team ran a workshop at the annual CADW conference, the number of sites taking part rose from six in 2014 to 10 in 2015. Few National Trust properties have taken part so far so this could be a partner to work more closely with in future years. Taking Over Day team members made presentations to museums at numerous events, including the annual GEM conference in Wales and at the Arts Council Wales conference. Staff from the Heritage Lottery Fund were invited to take part in the Planning and Sharing Meetings, and staff from Arts Award also attended to highlight how Taking Over Day can lead into or link with young people achieving a nationally recognised award.

Traditionally, most museums have found their Taking Over Day participants via formal education settings. This is still the case, however the number of events involving non-school groups has risen and now forms nearly a third of the total. This may be due to the focus on Communities First and the partnerships made through the Pioneer Areas pilot. Museums who may have begun working with school groups for Taking Over Day as it was the easiest audience to reach, are now challenging themselves to reach out to less well known audiences.



@takeovermuseums

12 museums took part in the second Teen Twitter Takeover this year, more than double the previous year's number, making it a substantial event in the museum calendar.

The popularity of the event is perhaps due to the fact that it is simple to organise and implement and the young people involved say they enjoy feeling trusted by the museum.

Highlights from the event can be found here: <https://storify.com/takeovermuseums/takingoverday>

Wedi i aelod o'r tîm Kids in Museums gynnal gweithdy yn y gynhadledd CADW flynyddol, cynyddodd y nifer o safleoedd a gymerodd ran o chwech yn 2014 i 10 yn 2015. Ychydig iawn o eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi cymryd rhan hyd yn hyn felly gallai'r Ymddiriedolaeth fod yn bartner i weithio'n agosach â hi mewn blynyddoedd i ddod. Gwnaeth aelodau'r tîm Diwrnod Meddiannu gyflwyniadau i amgueddfeydd mewn nifer o wahanol ddigwyddiadau, gan gynnwys y gynhadledd GEM flynyddol yng Nghymru a chynhadledd Cyngor Celfyddydau Cymru. Gwahoddwyd staff o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gymryd rhan yn y Cyfarfodydd Cynllunio a Rhannu, a daeth staff o'r Arts Award hefyd i esbonio sut y gallai'r Diwrnod Meddiannu arwain i mewn i neu gysylltu â phobl ifanc sy'n cyflawni dyfarniad a gydnabyddir yn genedlaethol.

Yn draddodiadol, mae'r mwyafrif o amgueddfeydd wedi cael hyd i'w cyfranogwyr Diwrnod Meddiannu drwy leoliadau addysg ffurfiol. Mae hyn yn wir o hyd, ond mae'r nifer o ddigwyddiadau sy'n cynnwys grwpiau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion wedi codi ac, erbyn hyn, maent yn cyfri am bron i draean o'r cyfanswm. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r ffocws ar Gymunedau yn Gyntaf a'r partneriaethau a wnaed drwy'r peilot Ardaloedd Arloesi. Efallai bod yr amgueddfeydd a gychwynnodd weithio gyda grwpiau ysgol ar gyfer y Diwrnod Meddiannu am mai nhw oedd y gynulleidfa hawsaf i'w chyrraedd, yn dechrau eu herio eu hunain erbyn hyn i estyn allan i gynulleidfaoedd mwy adnabyddus.



@takeovermuseums

Bu 12 amgueddfa'n cymryd rhan yn yr ail weithgaredd Meddiannu'r Twitter gan Bobl Ifanc eleni, mwy na dwbl y nifer a gyfranogodd y flwyddyn cynt, gan olygu bod hwn yn ddigwyddiad arwyddocaol yng nghalendr yr amgueddfa.

Efallai mai'r rheswm am boblogrwydd y digwyddiad yw'r ffaith ei fod yn syml i'w drefnu a'i weithredu a bod y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn dweud eu bod yn mwynhau teimlo bod yr amgueddfa'n ymddiried ynddynt.

Gallwch weld uchelbwyntiau'r digwyddiad yma: <https://storify.com/takeovermuseums/takingoverday>

Six of these museums went on to run a Taking Over Day event later in the year:

@takeovermuseums Everything is great, but my secret favourite is the Grand Staircase (don't tell the staff!) #takingover #diwrnodmeddiannu

@takeovermuseums It's a great way to let people know about museums from a teen's perspective! #takingoverday

More than half of venues said they used the Welsh language during their Taking Over Day. Of those that used the medium of Welsh, a third used incidental phrases and words here and there, a third delivered the programme bilingually and the remaining third conversed solely in Welsh. CADW have created a Community Challenge around Taking Over Day which can be completed over a period of months in partnership with a number of their sites. The challenge has been developed to be a task for students completing the Welsh Bacalaureate Advanced.

The development of Taking Over Day has led museums to make additional positive changes to welcome young visitors to their venues. This year 11 nominations were made for Welsh museums in the Telegraph's Family Friendly Museum Award, almost double the number made in 2014.

Shortlisted museum, The Winding House in Caerphilly, was given a Special Commendation for Outstanding Contribution to their Local Community – the first time any museum has been given such a commendation.

Kids in Museums continues to promote Taking Over Day through the press and social media. A Taking Over Day launch event was held for the first time this year and was attended by children, families and VIPs including Ken Skates, Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism. School children from Newport led the occasion at the Senedd – showing visitors where to go, offering refreshments and presenting their film to the audience.

Aeth chwech o'r amgueddfeydd yma ymlaen i redeg digwyddiad Diwrnod Meddiannu yn hwyrach yn y flwyddyn.

@takeovermuseums Mae popeth yn wych, ond fy hoff beth mewn gwirionedd yw'r Grisau Mawreddog (ond peidiwch â dweud wrth y staff!) #takingover #diwrnodmeddiannu

@takeovermuseums Mae'n ffordd wych o adael i bobl wybod am amgueddfeydd o safbwynt person ifanc yn ei arddgau! #takingoverday

Dyweddodd mwy na hanner y safleoedd eu bod yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eu Diwrnod Meddiannu. O'r rheiny a ddefnyddiodd y Gymraeg, bu traean yn defnyddio ymadroddion a geiriau achlysurol yma ac acw, roedd traean wedi darparu'r rhaglen yn ddwyieithog ac roedd y traean oedd yn weddill yn sgwrsio yn y Gymraeg yn unig. Mae CADW wedi creu Sialens Gymunedol mewn perthynas â'r Diwrnod Meddiannu y gellir ei chwblhau dros gyfnod o fisoedd mewn partneriaeth â nifer o'u safleoedd. Datblygwyd y sialens i ddod yn dasg i fyfyrwyr sy'n cwblhau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru.

Mae datblygiad y Diwrnod Meddiannu wedi peri i amgueddfeydd wneud newidiadau positif ychwanegol i groesawu ymwelwyr ifanc i'w safleoedd. Eleni gwnaed 11 o enwebiadau i amgueddfeydd Cymreig yn y Gwobrau Amgueddfeydd Addas i'r Teulu gan y Telegraph, bron i ddwywaith y nifer a wnaed yn 2014.

Rhoddyd Canmoliaeth Arbennig i'r Tŷ Weindio yng Nghaerffili am Gyfraniad Eithriadol i'w Cymuned Leol – y tro cyntaf i unrhyw amgueddfa dderbyn canmoliaeth o'r fath.

Mae Kids in Museums yn parhau i hybu'r Diwrnod Meddiannu drwy'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd digwyddiad lansio'r Diwrnod Meddiannu am y tro cyntaf eleni a daeth plant, teuluoedd a phobl amlwg yno, gan gynnwys Ken Skates, Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Arweiniwyd y digwyddiad yn y Senedd gan blant ysgol o Gasnewydd – roeddent yn dangos y ffordd i ymwelwyr, yn cynnig lluniaeth ysgafn ac yn cyflwyno eu ffilm i'r gynulleidfa.

INNOVATION: DEVELOPING IDEAS AND PRACTICE

The aim of Taking Over Day is to develop participation and involvement of children and young people at the heart of Welsh museums, archives, libraries and cultural organisations, in particular those from Communities First clusters. In its fourth year, we have looked in particular at how Taking Over Day has brought about innovation within the culture and heritage sector, inspiring organisations to try new ways of doing things and working with new people.

Building audiences

Nineteen organisations completed a survey reflecting on their Taking Over Day experience some months after their events took place.

42% said they had not worked with their participants in the past, so Taking Over Day provided an opportunity for many children and young people to become familiar with a new cultural venue.

This year showed a far greater diversity of audience, with a larger number of museums looking outside of schools to recruit Taking Over Day participants than ever before. Museums showed creative approaches to identifying and communicating with potential groups or young people themselves such as advertising to specific audiences through social media.

When asked why they had chosen that particular group to work with, most responses were to do with matching their activity with the school or young people's specific interest, e.g. working with a school council group for decision making, budget planning, inviting art students to create an exhibition. A few museums were able to demonstrate how their choice of participants linked to their organisation's audience development needs, e.g. targeting a particular school who had not yet made use of the museum's services or introducing a new age group to the venue. We know that where Taking Over Day plans are strongly linked to organisational objectives, a greater benefit is felt from the experience, so this could be further highlighted by the Kids in Museums project team in future.

ARLOESI: DATBLYGU SYNIADAU AC ARFERION

Nod y Diwrnod Meddiannu yw datblygu cyfranogaeth a chyfraniad plant a phobl ifanc yng nghalon yr amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, yn arbennig y rheiny o'r clystrau Cymunedau yn Gyntaf. Yn ei bedwaredd flwyddyn, rydym wedi edrych yn arbennig ar y ffordd mae'r Diwrnod Meddiannu wedi cyflwyno arloesi i'r sector diwylliant a threftadaeth, gan ysbrydoli sefydliadau i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau a gweithio gyda phobl newydd.

Datblygu cynulleidfaoedd

Mae pedwar ar bymtheg o sefydliadau wedi cwblhau arolwg yn myfyrio ar eu profiad o'r Diwrnod Meddiannu rai misoedd ar ôl eu digwyddiad.

Dyweddodd **42%** nad oeddent wedi gweithio gyda'u cyfranogwyr yn y gorffennol, felly roedd y Diwrnod Meddiannu wedi rhoi cyfle i nifer o blant a phobl ifanc ddod yn gyfarwydd â safle diwylliannol newydd.

Eleni gwelwyd llawer mwy o amrywiaeth yn y cynulleidfaoedd, a nifer uwch o amgueddfeydd nag erioed o'r blaen yn edrych y tu allan i ysgolion i recriwtio cyfranogwyr Diwrnod Meddiannu. Dangosodd yr amgueddfeydd agweddau creadigol tuag at bennu a chyfathrebu gyda grwpiau posibl neu bobl ifanc eu hunain megis hysbysebu i gynulleidfaoedd penodol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod wedi dewis y grŵp arbennig hwnnw i gydweithio â nhw, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn ymwneud â chyfateb eu gweithgaredd gyda diddordeb penodol y person ifanc neu'r ysgol e.e. gweithio gyda grŵp cyngor ysgol i wneud penderfyniadau, cynllunio cyllideb, gwahodd myfyrwyr celf i greu arddangosfa. Gallai rhai amgueddfeydd ddangos sut roedd eu dewis gyfranogwyr wedi cysylltu ag anghenion datblygu cynulleidfa'r sefydliad e.e. targedu ysgol benodol oedd heb wneud defnydd eto o wasanaethau'r amgueddfa neu gyflwyno grŵp oedran newydd i'r lleoliad. Rydym yn gwybod, pan fo cynlluniau Diwrnod Meddiannu wedi'u cysylltu'n gryf ag amcanion sefydliadol, y teimlir llawer mwy o fudd o'r profiad, felly gallai hyn gael ei amlygu ymhellach gan dîm prosiect Kids in Museums yn y dyfodol.

Almost two-thirds of survey respondents told us about ongoing work that was currently or soon-to-be happening with their Taking Over Day participants. This continued involvement is a very positive step towards developing a culture of young people's participation in Welsh museums.

Communities First Clusters are areas identified as being of deprivation and where new initiatives, partnerships and programmes are working together to tackle poverty. Nearly half of all organisations chose to work with a group of young people from a Communities First Cluster this year, compared with less than a third last year. This increase demonstrates the commitment of the museums to welcome this audience and the effectiveness of Taking Over Day as a vehicle to enable this. Several museums said they had worked with their local Communities First Officer to find a group or approach a school.

Soniodd bron i ddwy ran o dair o ymatebwyr yr arolwg am waith parhaus oedd yn digwydd neu a fydd yn digwydd cyn hir gyda'r bobl a fu'n cyfranogi gyda nhw ar y Diwrnod Meddiannu. Mae'r gyfrangaeth barhaus yma'n gam positif iawn tuag at ddatblygu diwylliant o gyfrangaeth gan bobl ifanc mewn amgueddfeydd yng Nghymru.

Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ardaloedd wedi'u pennu fel rhai o amddifadedd lle mae mentrau, rhaglenni a phartneriaethau newydd yn cydweithio i ymdrin â thlodi. Dewisodd bron i hanner yr holl sefydliadau weithio gyda grŵp o bobl ifanc o Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf eleni, o'i gymharu â llai na thraean y llynedd. Mae'r cynnydd yma'n dangos ymrwymiad yr amgueddfeydd i groesawu'r gynulleidfa yma ac effeithiolrwydd y Diwrnod Meddiannu fel cyfrwng i alluogi hynny. Dywedodd nifer o amgueddfeydd eu bod wedi gweithio gyda'u Swyddog Cymunedau yn Gyntaf i ganfod grŵp neu i ofyn i ysgol.

'It was a great way to re-connect with the school and has led to a really exciting new project'

LEARNING OFFICER, DYLAN THOMAS CENTRE

'I saw the potential for interpreting the museum collection in a different way with a group who would be unlikely to consider using the museum as a trigger for learning'

COMMUNITY HERITAGE LEARNING OFFICER, STORIEL

'We have made connections both with our local Communities First groups and the course leader from Fortitude Through the Creative Arts, who is always willing to give his young adults a different experience of a work environment.'

CUSTODIAN, CADW

'Roedd yn ffordd wych o ail gysylltu gyda'r ysgol ac mae wedi arwain at brosiect newydd cyffrous iawn.'

SWYDDOG DYSGU, CANOLFAN DYLAN THOMAS

'Gwelais botensial i ddehongli casgliad yr amgueddfa mewn ffordd wahanol gyda grŵp a fyddai'n annhebygol o ystyried defnyddio'r amgueddfa fel sbardun ar gyfer dysgu'

SWYDDOG DYSGU TREFTADAETH GYMUNEDOL, STORIEL

'Rydym wedi creu cysylltiadau gyda'n grwpiau Cymunedau yn Gyntaf lleol a'r arweinydd cwrs o Fortitude Through the Creative Arts sydd bob amser yn barod i roi profiad gwahanol i'w oedolion ifanc o amgylchedd gwaith.'

CEIDWAD, CADW

organisations SAID

MEDDAI'R sefydliadau

This year, partnerships have been formed to improve cultural inclusion in some Communities First areas of Wales under the Pioneer Areas pilot scheme. Museums in these partnerships looked at how their Taking Over Day experiences were supporting young people to achieve Communities First outcomes and found examples of young people:

- becoming confident citizens by interacting with visitors
- learning about the heritage of their area by becoming tour guides
- gaining volunteering experience to help them achieve their Welsh Baccalaureate
- improving literacy and communication skills by writing press releases and making presentations
- getting ideas for jobs they may want to do or places to work

An evaluation of the Pioneer Area Programme pilot year has recently been published and found that in museums that took part in Taking Over Day:

'Many of the school pupils had shown improvements across a number of key skills underpinning the curriculum; including language, literacy and numeracy, communication, use of information technology, working with others, improving their own learning and performance and problem solving. For example, one school had reported that the visits had allowed pupils to broaden their vocabulary, use their language skills in a different setting and develop the confidence to interact with a wider group of people.'

'The six children who took part on Taking Over Day came on another school trip with the rest of their class and some came up to the staff they recognised or had worked with to say hello.'

EDUCATION OFFICER, TECHNIQUEST GLYNDWR

organisations SAID

Eleni, ffurfiwyd partneriaethau i wella cynhwysiad diwylliannol mewn rhai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru o dan y cynllun peilot Ardaloedd Arloesi. Bu amgueddfeydd yn y partneriaethau yma'n edrych ar y ffordd yr oedd eu profiadau Diwrnod Meddiannu'n cefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf a chafwyd esiamplau o bobl ifanc:

- yn datblygu'n ddinasyddion hyderus drwy ryngweithio gydag ymwelwyr
- yn dysgu am dreftadaeth eu hardal drwy ddod yn dywyswyr
- yn cael profiad o wirfoddoli i'w helpu i gyflawni eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- yn gwella sgiliau llythrennedd a chyfathrebu drwy ysgrifennu datganiadau i'r wasg a gwneud cyflwyniadau
- yn cael syniadau ar gyfer swyddi y byddent efallai eisiau eu gwneud neu fannau i weithio ynddynt

Cyhoeddwyd gwerthusiad yn ddiweddar o flwyddyn beilot y Rhaglen Ardal Arloesi a chanfu hyn am yr amgueddfeydd a gymerodd ran yn y Diwrnod Meddiannu:

'Roedd nifer o'r disgyblion ysgol wedi dangos gwelliannau mewn nifer o sgiliau allweddol sy'n tanategu'r cwricwlwm; gan gynnwys iaith, llythrennedd a rhifedd, cyfathrebu, defnyddio technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain a datrys problemau. Er enghraifft, roedd un ysgol wedi sôn bod yr ymweliadau wedi caniatáu i ddisgyblion ehangu eu geirfa, defnyddio eu sgiliau iaith mewn lleoliad gwahanol a datblygu'r hyder i ryngweithio gyda grŵp ehangach o bobl.'

'Daeth y chwech o blant a gymerodd ran ar y Diwrnod Meddiannu ar drip ysgol arall gyda gweddill eu dosbarth ac aeth rhai at y staff yr oeddent yn eu hadnabod neu yr oeddent wedi gweithio â nhw i ddweud helo.'

SWYDDOG ADDYSG, TECHNIQUEST GLYNDŴR

MEDDAI'R sefydliadau

Young people from a Communities First group in Merthyr Tydfil worked with professionals at the library and neighbouring heritage site Cyfarthfa Castle to digitise artefacts and give living history guided tours. Their comments clearly show not only enjoyment of learning and a sense of self-belief, but an appreciation of why their local heritage is important and a feeling of connection with it. They said:

'This has changed my attitude of being part of a museum. The whole experience was full of facts and fun.' SOL, AGE 10

'Usually we just go on school trips, which is more of just being told the facts, like in class. This has been great, as we get to be a part of it. I feel more connected with the museum now and it has really inspired me in learning about history.'

JADE, AGE 16

'I love my role. Just being in this atmosphere has changed my idea of history. I now have new ideas of what happened in the olden days.'

KATIE, AGE 11

'I have learnt loads from taking part. I now know that we are really lucky to have the lives we do, and education unlike children in Merthyr in the Victorian period. People don't realise their heritage and what people have done for them. We are living history. On a normal day you don't get to see it. This was such an opportunity.'

CASSY, AGE 14

'The museum is the crown jewel of Merthyr. We only learn so much in school, but by doing this we know more. It's made me want to pursue history in my GCSEs.' CASSY, AGE 14

Bu pobl ifanc o grŵp Cymunedau yn Gyntaf ym Merthyr Tudful yn gweithio gyda phobl broffesiynol yn y llyfrgell a safle treftadaeth gyfagos Castell Cyfarthfa i ddigido eu hartefactau a chynnig teithiau hanes byw dan arweiniad. Mae eu sylwadau'n dangos yn glir nid yn unig eu bod wedi mwynhau dysgu ac wedi magu hunan-hyder, ond hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r rhesymau pam fo'u treftadaeth leol yn bwysig a'r teimlad o gysylltiad â hi. Medden nhw:

'Mae hyn wedi newid fy agwedd tuag at fod yn rhan o amgueddfa. Roedd y profiad cyfan yn llawn o ffeithiau a hwyl.' SOL, 10 OED

'Fel arfer rydym yn mynd ar dripiâu ysgol, sy'n cynnwys dysgu mwy o ffeithiau, yn debyg i fod mewn dosbarth. Mae hwn wedi bod yn wych, oherwydd rydym yn cael bod yn rhan o'r digwydd. Rwy'n teimlo mwy o gysylltiad gyda'r amgueddfa nawr ac mae wedi fy ysbrydoli go iawn i ddysgu am hanes.' JADE, 16 OED

'Rwy'n caru fy rôl. Mae jest bod yn yr awyrgylch yma wedi newid fy syniad o hanes. Mae gen i syniadau newydd erbyn hyn o beth ddigwyddodd yn yr hen ddyddiau.'

KATIE, 11 OED

'Rwyf wedi dysgu llawer drwy gymryd rhan. Rwy'n gwybod yn awr ein bod yn hynod o ffodus cael y bywydau sydd gennym, a chael addysg yn wahanol i blant Merthyr yn oes Fictoria. Dydy pobl ddim yn sylweddoli eu treftadaeth a beth mae pobl wedi'i wneud er eu mwyn nhw. Rydyn ni'n hanes byw. Dydych chi ddim yn cael gweld hyn ar ddiwrnod arferol. Roedd hwn yn gyfle mor dda.'

CASSY, 14 OED

'Yr amgueddfa yw'r em yng nghoron Merthyr. Mae'r hyn a ddysgw'n yn yr ysgol yn gyfyngedig, ond drwy wneud y gweithgaredd yma, rydym yn gwybod mwy. Mae wedi golygu mod i eisiau dewis hanes fel opsiwn TGAU.' CASSY, 14 OED

Building partnerships

Almost half of museums told us that they had worked in partnership with other organisations to deliver their Taking Over Day, with a wide variety of organisations involved, including arts professionals and colleagues from other local authority departments. In addition, 37% of organisations were working with a group or school that was new to them. All of these were new partnerships brought about by Taking Over Day and most museums told us about their intention to continue the partnership through ongoing project work or plans for new projects. Several organisations said that making or strengthening partnerships was the most positive outcome from their Taking Over Day.

'We are collaborating more with the library service.'

EDUCATION AND INTERPRETATION OFFICER,
CYFARTHFA CASTLE MUSEUM AND ART GALLERY

'We've made stronger links with local artists. We will try to build more partnerships in the future.'

SENIOR PARTICIPATION AND INTERPRETATION
OFFICER, NATIONAL WATERFRONT MUSEUM

'Working more closely with toddler groups and have had interest for homeschooling groups for future events/activities in the museum. Existing parents are going to participate in discussions to help shape the new museum space.'

VICE CHAIR, LLANDUDNO MUSEUM

'We feel a renewed partnership with the school as a destination for further groups in future.'

PRINCIPAL ARCHIVIST, GWYNEDD ARCHIVES SERVICE

organisations SAID

Adeiladu partneriaethau

Dywedodd bron i hanner yr amgueddfeydd wrthym eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu eu Diwrnod Meddiannu, gydag amrywiaeth eang o sefydliadau'n cymryd rhan, yn cynnwys pobl broffesiynol ym maes y celfyddydau a chydweithwyr o adrannau awdurdod lleol eraill. Yn ogystal, roedd 37% o sefydliadau'n gweithio gyda grŵp neu ysgol oedd yn newydd iddynt. Roedd y rhain i gyd yn bartneriaethau newydd a grewyd o ganlyniad i'r Diwrnod Meddiannu a dywedodd y mwyafrif o amgueddfeydd wrthym am eu bwriad i barhau'r bartneriaeth drwy waith prosiect parhaus neu gynlluniau ar gyfer prosiectau newydd. Dywedodd nifer o sefydliadau mai gwneud neu gryfhau partneriaethau oedd y canlyniad mwyaf positif o'u Diwrnod Meddiannu.

'Rydym yn cydweithio fwy gyda'r gwasanaeth llyfrgell'

SWYDDOG ADDYSG A DEHONGLI, AMGUEDDFA
AC ORIEL GELF CASTELL CYFARTHFA

'Rydym wedi creu cysylltiadau cryfach gydag artistiaid lleol. Byddwn yn ceisio adeiladu mwy o bartneriaethau yn y dyfodol.'

UWCH SWYDDOG CYFRANOGAETH A DEHONGLI,
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

'Rydym yn gweithio'n agosach â grwpiau plant bach ac wedi creu diddordeb ymysg grwpiau o blant sy'n cael eu haddysgu gartref am ddigwyddiadau/gweithgareddau yn yr amgueddfa. Mae'r rhieni presennol yn mynd i gyfranogi mewn trafodaethau i helpu i siapia'r lle newydd yn yr amgueddfa.'

IS-GADEIRYDD, AMGUEDDFA LLANDUDNO

'Rydym yn teimlo bod ein partneriaeth gyda'r ysgol fel cyrchnod i fwy o grwpiau yn y dyfodol wedi cael ei hadnewyddu.'

PRIF ARCHIFYDD, GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD

MEDDAI'R sefydliadau

Developing joined up working between cultural organisations is a key outcome of the Communities First programme and Taking Over Day provides a stimulus for this to happen. In Swansea, the Pioneer Area programme – the Swansea Creative Learning Partnership – meets regularly to network and plan collaborative projects. It was from this partnership that staff from Swansea Museum, The National Trust, Glamorgan-Gwent Archaeological Trust and Gower Landscape Partnership met and a joint Taking Over Day project evolved for young people to explore the heritage and landscape of Gower, the UK's first Area of Outstanding Natural Beauty. The Communities First Officer for the area approached a school to recruit some young people to take over for two days. The children spent half a day with each organisation taking on different roles such as discovering and caring for archaeological finds and preparing objects for an exhibition.

Trying new things

In order to find solutions to challenges and become more effective at meeting the needs of audiences, organisations must be willing to try new things and take risks. 41% of Taking Over Day museums said this was the first time they had tried that particular activity. Several museums gave the responsibility for choosing a Taking Over Day activity to the children or young people so were not sure what to expect.

'I gave the young adults all the education and entertainment materials we had on site, and they chose what to use to engage the home educated children with and how.'

CUSTODIAN, CADW

Innovation can be found in the increasingly wide variety of experiences created by museums and galleries:

New products

- Two A level students co-curated a three-week art exhibition at Tenby Museum tracing the development of the town
- Hair and beauty students from a local college recreated hairstyles from daguerreotype portraits that belong to the collection at the new Storiell in Bangor
- A 3D model was created by primary pupils to feature in an exhibition at the National Waterfront Museum

Mae datblygu cydweithio rhwng sefydliadau diwylliannol yn ganlyniad allweddol i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac mae'r Diwrnod Meddiannu'n darparu sbardun i wneud i hyn ddigwydd. Yn Abertawe, mae'r rhaglen Ardal Arloesi – Partneriaeth Ddysgu Greadigol Abertawe – yn cwrdd yn rheolaidd i rwydweithio a chynllunio prosiectau cydweithredol. O'r bartneriaeth hon, cyfarfu staff o Amgueddfa Abertawe, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent a Phartneriaeth Tirlun Gŵyr a datblygodd prosiect Diwrnod Meddiannu ar y cyd i bobl ifanc archwilio tirlun a threftadaeth Gŵyr, Ardal o Harddwch Eithriadol gyntaf y Deyrnas Unedig. Aeth Swyddog Cymunedau yn Gyntaf yr ardal at ysgol i recriwtio pobl ifanc i feddiannu am ddeuddydd. Bu'r plant yn treulio hanner diwrnod gyda phob sefydliad yn gwneud gwahanol rolau megis canfod a gofalu am ganfyddiadau archeolegol a pharatoi gwrthrychau ar gyfer arddangosfa.

Rhoi cynnig ar bethau newydd

I ganfod atebion i heriau a dod yn fwy effeithiol o ran cwrdd ag anghenion cynulleidfaoedd, rhaid i sefydliadau fod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd risgiau. Dywedodd 41% o amgueddfeydd Diwrnod Meddiannu mai dyma oedd y tro cyntaf iddynt roi cynnig ar y math yma o weithgaredd. Rhoddodd nifer o amgueddfeydd y cyfrifoldeb am ddewis gweithgaredd Diwrnod Meddiannu i'r plant neu bobl ifanc felly nid oeddent yn siŵr beth i'w ddisgwyl.

'Rhoddais yr holl ddeunyddiau adloniant ac addysg oedd gennym ar y safle i'r bobl ifanc, a nhw oedd yn cael dewis beth i'w ddefnyddio i ddenu diddordeb y plant oedd yn cael eu haddysgu gartref a sut y byddent yn gwneud hynny.'

CEIDWAD, CADW

Gallech weld arloesi yn yr amrywiaeth gynyddol eang o brofiadau a grewyd gan amgueddfeydd ac orielau:

Cynhyrchion newydd

- Bu dau fyfyrwr lefel A yn cyd-guradu arddangosfa gelf dair wythnos yn Amgueddfa Dinbych-y-Pysgod oedd yn olrhain datblygiad y dref
- Bu myfyrwyr gwallt a harddwch o goleg lleol yn ail greu steiliau gwallt o bortreadau daguerreoteip sy'n perthyn i'r casgliad yn y Storiell newydd ym Mangor
- Crewyd model 3D gan ddisgyblion cynradd i'w ddangos mewn arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

New ideas

- Llandudno Museum invited under 3s to show them what they liked about the current collection through a range of hands-on experiences, ahead of a major expansion
- At St. Fagans National History Museum, 8 to 14 year-olds from the local community designed material for a new Iron Age workshop
- School council members from a Welsh medium primary school helped staff at Abergavenny Museum develop family activities for their Summer 2016 exhibition

New services

- Teenagers working to overcome disadvantage acted as hosts at Castell Coch and ran an activity day for groups of home-educated children
- At Glamorgan Archives children offered a range of services to the public, including registering new users, dealing with research enquiries and digital reprographics orders and promotion of the service via social media
- Students helped staff at Tintern Abbey to devise a new educational pamphlet

New technologies

- Year 10 pupils at the Firing Line Museum used filming equipment and software to create an animation about a story from the collection. Photos that they took of their progress were displayed on the museum touchscreen and Facebook page for visitors to see
- Children at Ruddlan Castle produced a virtual tour of the castle, from research and planning through to filming and editing

Working more effectively

Museums were asked what they had learnt from the experience. We know from previous research that organisations learn a great deal about the needs and interests of young people from Taking Over Day and this continues to be so, with many museums reflecting on the successes and challenges of working with a young audience and demonstrating an increased confidence in their ability to provide stimulating and enjoyable experiences for them. In several cases Taking Over Day brought about a realisation that their museum has a great deal to offer young people and vice versa.

Syniadau newydd

- Gwahoddodd Amgueddfa Llandudno blant dan 3 oed i ddangos iddynt beth roeddent yn ei hoffi am y casgliad cyfredol drwy amrywiaeth o brofiadau ymarferol, cyn dechrau ar waith ehangu mawr
- Yn Amgueddfa'r Werin Sain Ffagan, bu plant 8 – 14 oed o'r gymuned leol yn dylunio deunyddiau ar gyfer gweithdy newydd ar yr Oes Haearn
- Bu aelodau o'r cyngor ysgol o ysgol gynradd Gymraeg yn helpu staff yn Amgueddfa Y Fenni i ddatblygu gweithgareddau i'r teulu i'w harddangosfa yn Haf 2016.

Gwasanaethau newydd

- Bu pobl ifanc yn eu harddegau oedd yn gweithio i ddod dros anawsterau'n arwain diwrnod gweithgareddau yng Nghastell Coch i grwpiau o blant sy'n cael eu haddysgu gartref
- Yn Archifau Morgannwg, roedd plant yn cynnig ystod o wasanaethau i'r cyhoedd, yn cynnwys cofrestru defnyddwyr newydd, ymdrin ag ymholiadau am ymchwilio ac archebion reprograffeg ddigidol a hybu'r gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Bu myfyrwyr yn helpu staff yn Abaty Tyndym i ddyfeisio pamffled addysgiadol newydd

Technolegau newydd

- Roedd disgyblion Blwyddyn 10 yn y Firing Line Museum yn defnyddio offer a meddalwedd ffilmio i greu animeiddiad am stori o'r casgliad. Dangoswyd ffotograffau a dynwyd ganddynt o'u cynnydd ar sgrin cyffwrdd yr amgueddfa ac ar dudalen Facebook i ymwelwyr ei weld
- Cynhyrchodd y plant yng Nghastell Rhuddlan daith rithwir o amgylch y castell, o'r gwaith ymchwil a chynllunio i'r ffilmio a golygu

Gweithio'n fwy effeithiol

Gofynnwyd i amgueddfeydd beth roeddent wedi'i ddysgu o'r profiad. Rydym yn gwybod o waith ymchwil blaenorol bod sefydliadau'n dysgu llawer iawn am anghenion a diddordebau pobl ifanc o'r Diwrnod Meddiannu ac mae hyn yn parhau felly, gyda nifer o amgueddfeydd yn myfyrio ar lwyddiannau a heriau gweithio gyda chynulleidfa ifanc ac yn dangos mwy o hyder yn eu gallu i ddarparu profiadau ysgogol a hwyliog iddynt. Mewn nifer o achosion, fe sylweddolodd nifer o amgueddfeydd ar y Diwrnod Meddiannu bod ganddynt lawer iawn i'w gynnig i bobl ifanc a bod gan bobl ifanc lawer iawn i'w gynnig iddyn nhw.

Some museums were also able to demonstrate how Taking Over Day had inspired them to do things differently, particularly where the day had been planned to deliver specific outcomes, e.g. getting feedback from young people on what to put in a new exhibition. In future, this could be an area where Kids in Museums could support organisations further, encouraging them to design Taking Over Day experiences which link in with their forward plans and to put 'next steps' in place.

WHAT DID YOUR ORGANISATION LEARN FROM THE EXPERIENCE?

'It's not as scary as one may think letting others take over a bit'

CUSTODIAN, CADW

'The value of engaging hard to reach groups'

PROJECT COORDINATOR, GOWER LANDSCAPE PARTNERSHIP

'That the Museum is an educational resource for vocational groups and can inspire them'

COMMUNITY HERITAGE LEARNING OFFICER, STORIEL

'What handling collections the children most enjoyed so what to invest in in the future'

VICE CHAIR, LLANDUDNO MUSEUM

'Staff were reminded of what they enjoy about their jobs as they explained their role to the children. It has also emphasised the importance of going to schools to meet with teachers to discuss what we have to offer'

EDUCATION OFFICER, TECHNIQUEST GLYNDWR

'A better understanding of a young person's point of view, the need to ask and listen to younger people'

COLLECTIONS MANAGER, TENBY MUSEUM AND ART GALLERY

'We learned that letting young people take the lead in the ideas process can produce very effective and engaging results'

EDUCATION AND INTERPRETATION OFFICER, CYFARTHFA CASTLE MUSEUM & ART GALLERY

Hefyd gallai rhai amgueddfeydd ddangos sut roedd y Diwrnod Meddiannu wedi eu hysbrydoli i wneud pethau'n wahanol, yn enwedig lle'r oedd y diwrnod wedi'i gynllunio i ddarparu canlyniadau penodol e.e. cael adborth gan bobl ifanc ar beth i'w roi mewn arddangosfa newydd. Yn y dyfodol gallai hwn fod yn faes lle gallai Kids in Museums gefnogi sefydliadau ymhellach, gan eu hannog i lunio profiadau Diwrnod Meddiannu sy'n cysylltu gyda'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol a rhoi 'camau nesaf' yn eu lle.

BETH DDYSGODD EICH SEFYDLIAD O'R PROFIAD?

'Dydy hi ddim mor arswydus â'r disgwyl i adael i bobl eraill gymryd yr awennau ychydig bach'

CEIDWAD, CADW

'Gwerth ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd'

CYDLYNYDD PROSIECT, PARTNERIAETH TIRLUN GŴYR

'Bod yr Amgueddfa'n adnodd addysgiadol i grwpiau galwedigaethol ac yn gallu eu hysbrydoli'

SWYDDOG DYSGU TREFTADAETH, STORIEL

'Pa gasgliadau cyffwrdd roddodd y mwynhad mwyaf i'r plant, felly beth i fuddsoddi ynddo yn y dyfodol'

IS-GADEIRYDD, AMGUEDDFA LLANDUDNO

'Cafodd y staff eu hatgoffa am y pethau maent yn eu mwynhau am eu swyddi wrth iddynt esbonio eu rôl i'r plant. Mae wedi pwysleisio hefyd bwysigrwydd mynd i ysgolion i gwrdd ag athrawon i drafod beth sydd gennym i'w gynnig'

SWYDDOG ADDYSG, TECHNIQUEST GLYNDŴR

'Gwell dealltwriaeth o safbwynt person ifanc, yr angen i holi a gwrando ar bobl iau'

RHEOLWR CASGLIADAU, AMGUEDDFA AC ORIEL GELF

DINBYCH-Y-PYSGOD

'Rydym wedi dysgu bod gadael i bobl ifanc gymryd yr awennau yn y broses syniadau'n gallu cynhyrchu canlyniadau hynod effeithiol a diddorol'

SWYDDOG ADDYSG A DEHONGLI, AMGUEDDFA AC ORIEL GELF

CASTELL CYFARTHFA

WHAT CHANGES HAS YOUR ORGANISATION MADE AS A RESULT OF TAKING OVER DAY?

'We are collaborating more with the library service'

EDUCATION AND INTERPRETATION OFFICER, CYFARTHFA CASTLE MUSEUM & ART GALLERY

'Some of the ideas that one of the children had for the Winter Wonder theme have been used following Taking Over Day'

EDUCATION OFFICER, TECHNIQUEST GLYNDWR

'Reorganised education space plans for the redeveloped museum'

VICE CHAIR, LLANDUDNO MUSEUM

'We are looking at our visitor experience and will be including the feedback from the day in this when we look at the interpretation of the house'

VOLUNTEER AND COMMUNITY INVOLVEMENT MANAGER, ERDDIG

'Signs have been altered to be less "negative"'

COLLECTIONS MANAGER, TENBY MUSEUM AND ART GALLERY

PA NEWIDIADAU MAE EICH SEFYDLIAD WEDI EU GWNEUD O GANLYNIAD I'R DIWRNOD MEDDIANNU?

'Rydym yn cydweithredu fwy gyda'r gwasanaeth llyfrgell'

SWYDDOG ADDYSG A DEHONGLI, AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASTELL CYFARTHFA

'Defnyddiwyd rhai o'r syniadau a gafodd un o'r plant ar gyfer y thema Swyn y Gaeaf yn dilyn y Diwrnod Meddiannu'

SWYDDOG ADDYSG, TECHNIQUEST GLYNDŴR

'Lle addysgiadol wedi'i aildrefnu ar gyfer yr amgueddfa ar ein newydd wedd'

IS-GADEIRYDD, AMGUEDDFA LLANDUDNO

'Rydym yn edrych ar brofiad ein ymwelwyr a byddwn yn cynnwys yr adborth o'r diwrnod yn hwn pan edrychwn ar y dehongliad o'r ty'

RHEOLWR CYFRANOGAETH Y GYMUNED A GWIRFODDOLI, ERDDIG

'Addaswyd yr arwyddion i'w gwneud yn llai "negyddol"'

RHEOLWR CASGLIADAU, AMGUEDDFA AC ORIEL GELF DINBYCH-Y-PYSGOD

SUPPORT AND RESOURCES

Support from Kids in Museums

This year, more people said they had used the online resources and information on the Taking Over Day webpage; 88% had used them, compared to 74% in 2014. Take up of the phone and email support and the printed resources was similar to last year with the majority of organisations accessing these during the lead up to Taking Over Day. Levels of satisfaction with the support available were similarly high to previous years, with every museum saying they were 'useful' or 'very useful'.

'We were all very impressed with the "Taking Over" packs and posters. The children were especially pleased to receive their certificates.'

PRINCIPAL ARCHIVIST, GWYNEDD ARCHIVES SERVICE

CEFNOGAETH AC ADNODDAU

Cefnogaeth gan Kids in Museums

Eleni dywedodd fwy o bobl eu bod wedi defnyddio'r adnoddau ar-lein a'r wybodaeth ar we-dudalen Diwrnod Meddiannu; roedd 88% wedi eu defnyddio nhw, o'i gymharu â 74% yn 2014. Roedd y defnydd a wnaed o'r gefnogaeth ar yr ebost a'r ffôn a'r adnoddau print yn debyg i'r llynedd gyda'r mwyafrif o sefydliadau'n defnyddio'r rhain yn ystod y cyfnod a arweiniodd at y Diwrnod Meddiannu. Roedd lefelau'r boddhad gyda'r gefnogaeth oedd ar gael yr un mor uchel ag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol gyda phob amgueddfa'n dweud eu bod yn 'ddefnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn'.

'Roeddem oll yn hapus iawn gyda'r pecynnau a'r posteri "Meddiannu". Roedd y plant yn arbennig o hapus i dderbyn eu tystysgrifau.'

PRIF ARCHIFYDD, GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD

Kids in Museums ran two Planning and Sharing Meetings to support and encourage organisations to run a Taking Over Day. This year, on average, museums sent two delegates per organisation to attend, which shows a committed interest in the project. 36 people benefited from this training and support in 2015, an increase of 50% from the previous year.

Some museums who did not attend a Planning and Sharing Meeting said that they could not justify the time away from work or that the venue was too far, particularly respondents from the North of the country. This indicates there is still a gap within the support for more isolated museums across the country and especially in the North.

'It was also great to see how Taking Over Day has grown over the years in various museums and become part of their yearly programme.'

EDUCATION OFFICER, TECHNIQUEST GLYNDWR

'Meeting other providers from different sectors in the local area. Leading on to new ideas and potential future partnership opportunities.'

SENIOR PARTICIPATION AND INTERPRETATION OFFICER, NATIONAL WATERFRONT MUSEUM

organisations SAID

New resources

Kids in Museums produced several new resources this year and compared to last year, use of these new resources was substantially higher, perhaps due to the fact that more people were accessing the Taking Over Day webpage in general. In particular the 2014 Taking Over Day report and the Arts Award factsheet for schools were popular, being accessed by more than half of museums. Each of the new resources received between 250 and 400 downloads.

Cynhaliodd Kids in Museums ddau Gyfarfod Cynllunio a Rhannu i gefnogi ac annog sefydliadau i redeg Diwrnod Meddiannu. Eleni, ar gyfartaledd, anfonodd amgueddfeydd ddau gynrychiolydd o bob sefydliad i fynychu, sy'n dangos diddordeb ymroddedig yn y prosiect. Elwodd 36 o bobl o'r hyfforddiant a'r gefnogaeth yma yn 2015, sef cynnydd o 50% ar y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd rhai o'r amgueddfeydd oedd heb fod mewn Cyfarfod Cynllunio a Rhannu na allent gyfiawnhau'r amser i ffwrdd o'u gwaith neu bod y safle'n rhy bell, yn arbennig yr ymatebwyr o Ogledd y wlad. Mae hyn yn dangos bod bwlch yn bodoli o hyd yn y gefnogaeth i amgueddfeydd mwy ynysig ar draws y wlad ac yn arbennig yn y Gogledd.

'Roedd hi'n wych gweld hefyd sut mae'r Diwrnod Meddiannu wedi tyfu dros y blynnyddoedd mewn amrywiol amgueddfeydd ac wedi dod yn rhan o'u rhaglen flynyddol.'

SWYDDOG ADDYSG, TECHNIQUEST GLYNDWR

'Cyfarfod darparwyr eraill o wahanol sectorau yn yr ardal leol. Arwain ymlaen at syniadau newydd a chyfloedd posibl i greu partneriaethau ar gyfer y dyfodol.'

UWCH SWYDDOG DEHONGLI A CHYFRANOGAETH, AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

MEDDAI'R sefydliadau

Adnoddau newydd

Cynhyrnodd Kids in Museums nifer o adnoddau newydd eleni o'i gymharu â'r llynedd, a chafodd y rhain eu defnyddio'n llawer amlach, efallai am fod mwy o bobl yn mynd ar dudalen gwe'r Diwrnod Meddiannu yn gyffredinol. Yn arbennig roedd adroddiad Diwrnod Meddiannu 2014 a'r ffeithlen Arts Award i ysgolion yn boblogaidd, ac roedd mwy na hanner yr amgueddfeydd wedi edrych ar y rhain. Derbyniodd bob un o'r adnoddau newydd rhwng 250 a 400 o lawrlwythiadau.

Satisfaction with the new resources was also high, with 100% rating them 'useful' or 'very useful'. 60% of museums found the factsheet for schools 'very useful' and 67% of museums found the Communities First factsheet to be 'very useful'. Fewer museums found the Arts Award factsheet useful, perhaps because this is an emerging scheme across Wales so fewer museums have considered linking it with Taking Over Day so far. This represents an opportunity for Kids in Museums and Arts Award to support organisations further.

Volunteers

The number of Kids in Museums volunteers in Wales has doubled over the past year, with 23 volunteers now assisting with events and activities in Welsh museums, 18 of whom are under 25 years old. Volunteers assisted both with Taking Over Days and with More Than a Days, taking photos, interviewing participants and collecting other feedback.

Tref 4 Youth teamed up with Cyfartha Museum and Art Gallery and the MTCBC libraries service in Merthyr Tydfil on Take Over Day. Eleanor, who was a student volunteer from Cardiff University was on hand all day. She took pictures and video of the scenes performed by the young people and talked to them about their project. This was invaluable and gave the actors great confidence because they knew that there was a friendly, enthusiastic person in the audience, willing them to do their best. I was totally impressed with Eleanor's commitment to Kids in Museums. She was a really great ambassador for the project.'

ARCHAEOLOGICAL PLANNING OFFICER,
GLAMORGAN-GWENT ARCHAEOLOGICAL TRUST

organisations SAID

Roedd y boddhad gyda'r adnoddau newydd yn uchel hefyd, gyda chyfradd o 100% ohonynt yn eu cael yn 'ddefnyddiol' neu'n 'ddefnyddiol iawn'. Dywedodd 60% o amgueddfeydd bod y ffeithlen i ysgolion yn 'ddefnyddiol iawn' a dywedodd 67% o amgueddfeydd bod y ffeithlen Cymunedau yn Gyntaf yn 'ddefnyddiol iawn'. Roedd llai o amgueddfeydd wedi cael y ffeithlen Arts Award yn ddefnyddiol efallai am fod hwn yn gynllun sy'n dod i'r amlwg ledled Cymry felly mae llai o amgueddfeydd wedi ystyried ei gysylltu gyda'r Diwrnod Meddiannu hyd yn hyn. Mae hwn yn gyfle i Kids in Museums ac Arts Award gefnogi sefydliadau ymhellach.

Gwirfoddolwyr

Mae nifer y gwirfoddolwyr Kids in Museums yng Nghymru wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda 23 o wirfoddolwyr yn helpu gyda gweithgareddau a digwyddiadau mewn amgueddfeydd yng Nghymru erbyn hyn. Mae 18 ohonynt o dan 25 oed. Bu gwirfoddolwyr yn helpu gyda Diwrnodau Meddiannu a gyda Mwy na Diwrnod, yn tynnu lluniau, yn cyfweld cyfranogwyr arc yn casglu adborth arall.

'Ymunodd Tref 4 Youth gydag Amgueddfa ac Oriel Gelf Cyfarthfa a gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym Merthyr ar y Diwrnod Meddiannu. Roedd Eleanor, gwirfoddolwr oedd yn fyfyrwr o Brifysgol Caerdydd wrth law drwy'r dydd. Bu'n tynnu lluniau a fideos o'r golygfeydd a berfformiwyd gan y bobl ifanc ac yn siarad gyda nhw am eu prosiect. Roedd hyn yn hynod o werthfawr a rhoddodd hyder mawr i'r actorion am eu bod yn gwybod bod yna rywun brwdfrydig a chyfeillgar yn y gynulleidfa, yn eu hannog i wneud eu gorau. Roeddwn wedi fy mhlesio'n fawr gydag ymrwymiad Eleanor i Kids in Museums. Roedd hi'n llysgennad gwych i'r prosiect.'

SWYDDOG CYNLLUNIO ARCHEOLEGOL,
YMDDIRIEDOLAETH ARCHEOLEGOL
MORGANNWG-GWENT

MEDDAI'R sefydliadau

Training on supporting Taking Over Day museums was given to volunteers in October 2015. As many of the volunteers are young people themselves, volunteering for Kids in Museums has given them the opportunity to learn about the heritage sector and develop new skills and contacts. One volunteer, for example, is working with Tintern Abbey to create a resource which will be used in the abbey in future; this project evolved from her experience of assisting with their Taking Over Day.

Kids in Museums has started to collaborate with Young Critics, a volunteer group focusing on the quality and standards of exhibitions and programming at National Museums in Wales. Kids in Museums volunteers have been able to access opportunities and contribute to the work of the group. This is an area which could see further mutual benefits in future.

In February 2016 Kids in Museums received a small grant from GwirVol, a partnership of organisations who represent and promote youth volunteering in Wales, to run a recruitment event led by Kids in Museums' existing volunteers. The grant will enable them to work with a Communities First Cluster in Cardiff to plan and deliver an event to introduce young people to volunteering for Kids in Museums.

Challenges

Museums were asked what the challenges had been in organising their Taking Over Day. Responses focused largely on resourcing the programme – staffing, space, finance, and some commented that they had been able to do less than they would have liked because of these issues. No museums this year said that they experienced difficulties finding a group to work with or in planning their activity, which has been an issue in the past. The volume of case studies, factsheets and other support available through the webpage means that many of the questions and uncertainties organisations may have can be easily answered.

As museums are committing more to supporting Communities First, many have used Taking Over Day as an opportunity to work with hard-to-reach groups and children who are not familiar with cultural venues. As such, sometimes the nature of the group presented

Ym mis Hydref 2015, rhoddwyd hyfforddiant i wirfoddolwyr ar gefnogi amgueddfeydd ar y Diwrnod Meddiannu. Am fod nifer o'r gwirfoddolwyr yn bobl ifanc eu hunain, mae gwirfoddoli ar gyfer Kids in Museums wedi rhoi cyfle iddynt i ddysgu am y sector treftadaeth a datblygu sgiliau a chysylltiadau newydd. Er enghraifft, mae un gwirfoddolwr yn gweithio gydag Abaty Tyndeyrn i greu adnodd a fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr abaty yn y dyfodol; datblygodd y prosiect yma o'i phrofiad o helpu gyda'u Diwrnod Meddiannu.

Mae Kids in Museums wedi dechrau cydweithio gyda Young Critics, sef grŵp gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar ansawdd a safonau arddangosfeydd a rhaglennu mewn Amgueddfeydd Cenedlaethol yng Nghymru. Mae gwirfoddolwyr Kids in Museums wedi gallu manteisio ar gyfleoedd a chyfrannu at waith y grŵp. Mae hwn yn faes a allai ddod â rhagor o fanteision i'r ddwy ochr yn y dyfodol.

Ym mis Chwefror 2016, derbyniodd Kids in Museums grant bychan gan GwirVol, sef partneriaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn hybu gwirfoddoli ymysg yr ifanc yng Nghymru, i redeg digwyddiad recriwtio dan arweiniad gwirfoddolwyr presennol Kids in Museums. Bydd y grant yma'n eu galluogi i weithio gyda Chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerdydd i gynllunio a darparu digwyddiad i gyflwyno pobl ifanc i wirfoddoli i Kids in Museums.

Sialensiau

Gofynnwyd i amgueddfeydd beth oedd y sialensiau wrth drefnu eu Diwrnod Meddiannu. Roedd yr atebion yn ymwneud yn fawr ar gael adnoddau i'r rhaglen – staffio, lle, cyllid a dywedodd rhai nad oeddent wedi gallu gwneud cymaint ag y byddent wedi ei hoffi oherwydd y materion yma. Ni ddywedodd unrhyw amgueddfeydd eleni eu bod wedi cael anawsterau'n cael hyd i grŵp i weithio â nhw neu wrth gynllunio eu gweithgaredd, sydd wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Mae'r nifer o astudiaethau achos, ffeithlenni a chefnogaeth arall sydd ar gael drwy'r we-dudalen yn golygu bod modd ateb nifer o'r cwestiynau a'r elfennau ansicr sydd efallai gan sefydliadau.

Am fod amgueddfeydd yn ymrwymo mwy i gefnogi Cymunedau yn Gyntaf, mae nifer wedi defnyddio'r Diwrnod Meddiannu fel cyfle i weithio gyda grwpiau a phlant anodd eu cyrraedd sy'n anghyfarwydd â

a challenge to museums in considering how best to engage them throughout the programme. Strategies for engaging challenging young people could be a suitable topic for discussion or presentations at a future Planning and Sharing meeting.

Museums who had shown an interest but then didn't run a Taking Over Day were asked about why they hadn't been able to take part this year and what would help them to do so in future. Common reasons for not taking part included a lack of time to persuade colleagues or plan an event. A few museums had started organising an event but it had fallen through for logistical reasons, usually to do with human resourcing or recruitment of a suitable group. The responses indicated that some museums are still under the impression that Taking Over Day must take place on Taking Over Day – *'we had a school booked in on that day and they were happier to have our normal programme of study'* – and also highlighted the need for further confidence building amongst a few smaller museums – *'we would love to take part but I just can't see how we can do it with our current staffing and work load'*.

These issues presented can be removed by making the flexibility of the project more widely understood – events can be organised to suit each museum's own timetable and needs, with any age or number of children, it can be as small or as big an event as can be managed. This should continue to be a key message from the Kids in Museums project team and further ways to share and reinforce this should be devised. Continuing to highlight ideas for smaller takeovers may also encourage uncertain museums to get involved.

safleoedd diwylliannol. O ganlyniad, byddai natur y grŵp yn sialens i amgueddfeydd weithiau wrth iddynt geisio ystyried sut i ymdrin â nhw orau drwy gydol y rhaglen. Gallai strategaethau i ennyn diddordeb pobl ifanc heriol fod yn destun trafod addas neu'n destun cyflwyniadau addas mewn cyfarfod Cynllunio a Rhannu yn y dyfodol.

Gofynnwyd i amgueddfeydd oedd wedi dangos diddordeb ond oedd heb redeg Diwrnod Meddiannu wedyn pam nad oeddent wedi gallu cymryd rhan eleni a beth fyddai'n eu helpu nhw i wneud hynny yn y dyfodol. Ymysg y rhesymau cyffredin am beidio cymryd rhan roedd diffyg amser i berswadio cydweithwyr neu i gynllunio digwyddiad. Roedd rhai amgueddfeydd wedi dechrau trefnu digwyddiad ond roedd y cynlluniau wedi methu am resymau logistaidd, yn ymwneud fel arfer gydag adnoddau dynol neu recriwtio grŵp addas. Roedd yr ymatebion yn dangos bod rhai amgueddfeydd yn dal i fod o dan yr argraff bod yn rhaid i'r Diwrnod Meddiannu ddigwydd ar y Diwrnod Meddiannu – *'roedd ysgol wedi cofrestru i ymweld ar y diwrnod hwnnw ac roedden nhw'n hapusach i gael ein rhaglen arferol o astudiaeth'* – ac amlygodd hefyd yr angen am adeiladu hyder ymhellach ymysg rhai amgueddfeydd llai – *'byddem wrth ein boddau'n cymryd rhan ond alla i ddim gweld sut y gallwn wneud hynny gyda'n staff a'n llwyth gwaith presennol'*.

Mae modd diddymu'r problemau yma drwy wneud hyblygrwydd y prosiect yn fwy dealladwy – gellir trefnu digwyddiadau sy'n addas i amserlen ac anghenion bob amgueddfa, gydag unrhyw nifer o blant neu blant o unrhyw oedran, gall fod yn ddigwyddiad mor fach neu mor fawr ag y gellir ymdopi ag o. Dylai hyn barhau i fod yn neges allweddol gan dîm prosiect Kids in Museums a dylid dyfeisio ffyrdd pellach o rannu ac atgyfnerthu hyn. Gallai parhau i amlygu syniadau ar gyfer gweithgareddau meddiannu llai annog amgueddfeydd ansicr i gymryd rhan hefyd.


More Than a Day

Last year we reported on how museums had developed their Taking Over Day from a one-off event into one which took place over a period of time and this trend has continued into 2015. In 59% of cases participants made multiple visits to the museum during their Taking Over Day experience, an increase of 12% on the previous year. Promoting the notion of ‘More Than a Day’ – extending young people’s participation beyond annual Taking Over Day itself – was one of the recommendations from last year’s report.

‘We are working on a boys’ literacy project with Danygraig School; this has come about as a result of reconnecting with the school for Taking Over Day.’

LEARNING OFFICER, DYLAN THOMAS CENTRE

Youth Panels



The results above indicate that, although there are very few museums who currently have a youth panel – just two of the 17 people who answered this question – this is an area of growth so this statistic might be very different in a year’s time.

Museums were asked what they thought the challenges were in setting up their youth panel. The museum that already had a youth panel replied – *‘Finding members and sustaining, finding a timetable that allows all to meet/plan etc.’* Of the respondents without a youth panel, there were two comments about finding time to run

Mwy na Diwrnod

Y llynedd aethom ati i son am y ffordd roedd amgueddfeydd wedi datblygu eu Diwrnod Meddiannu o ddigwyddiad unwaith yn unig i ddigwyddiad dros gyfnod o amser ac mae’r duedd yma wedi parhau yn 2015. Mewn 59% o achosion aeth y cyfranogwyr i ymweld â’r amgueddfa nifer o weithiau yn ystod eu profiad o’r Diwrnod Meddiannu, sef cynnydd o 12% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd hybu’r syniad o ‘Fwy na Diwrnod’ – ymestyn cyfranogaeth pobl ifanc y tu hwnt i’r Diwrnod Meddiannu blynyddol ei hun – yn un o’r argymhellion o adroddiad y llynedd.

‘Rydym yn gweithio ar brosiect llythrennedd bechgyn gydag Ysgol Danygraig; digwyddodd hyn o ganlyniad i ailgysylltu gyda’r ysgol ar gyfer y Diwrnod Meddiannu.’

SWYDDOG DYSGU, CANOLFAN DYLAN THOMAS

Panelau Ieuenctid

Er mai ychydig iawn o amgueddfeydd sydd â phanel ieuenctid ar hyn o bryd (dim ond dwy o’r 17 o amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn yma sydd â phanel ieuenctid), mae’r maes yma’n tyfu felly gallai’r ystadegau yma fod yn wahanol iawn ymhenn blwyddyn.

Gofynnwyd i’r amgueddfeydd feddwl beth fyddai’r heriau wrth sefydlu panel ieuenctid. Dyma oedd ateb yr amgueddfa oedd â phanel ieuenctid yn barod – *‘Canfod aelodau a’u cadw, canfod amserlen sy’n caniatáu i bawb gwrdd/gynllunio ac ati.’* O’r ymatebion gan amgueddfeydd oedd heb banel ieuenctid, cafwyd

it, two comments about recruiting the right members – *'Identifying groups that will have continued interest in the museum'* *'Marketing a youth panel to non-traditional museum users to ensure they have a voice'* – and one comment about organising members' transport to their museum.

In 2015 Kids in Museums produced a new factsheet, 'How to set up a Youth Panel – Ten top Tips', to support museums to involve young people in a more sustained way. The most popular suggestion for further support from museums was on the same theme – case studies investigating prolonged involvement of young people in museums, e.g. through membership of a youth panel. This would be a relatively easy way for Kids in Museums to support organisations. Other requests were for marketing plans and help identifying groups in the area.

'Any information or case studies would be useful – basically a detailed best practice guide would be great!'

LEARNING OFFICER, DYLAN THOMAS CENTRE

Arts Award

Just over half of survey respondents said they would consider linking their Taking Over Day to Arts Award in future, the rest said they were not sure, none said no. The major reason for being unsure was to do with not feeling they knew enough about Arts Award. As mentioned previously in this report, the Arts Award and Takeover Day factsheet produced this year has been accessed by a large number of museums so there is clearly an appetite for finding out more.

'Need to find out more about it and how it would link to us as a science discovery centre rather than a museum.'

EDUCATION OFFICER, TECHNIQUEST GLYNDWR

In line with the previous question, ideas for support centred around learning more about Arts Award. Some people seemed to be aware of where they could get this information – *'My learning officer colleague has done stuff with Arts Award so probably just needs her and I to have a chat'*. A few people requested training sessions or simply time to consider how they could make it work. Staff from Arts Award attended both sharing meetings this year and it would be a good idea to repeat this again as well as look for other opportunities

dau sylw am ganfod yr amser i'w redeg, dau sylw am recriwtio'r aelodau cywir – *'Pennu'r grwpiau fydd â diddordeb parhaus yn yr amgueddfa'* *'Marchnata panel ieuencid i ddefnyddwyr amgueddfeydd annhraddodiadol er mwyn sicrhau bod ganddynt lais'* – a chafwyd un sylw am drefnu cludiant aelodau i'w hamgueddfa.

Yn 2015, cynhyrchoedd Kids in Museums ffeithlen newydd, 'Sut i sefydlu Panel Ieuencid – Y deg awgrym gorau', i gefnogi amgueddfeydd i gynnwys pobl ifanc mewn ffordd fwy cynhaliadwy. Roedd yr awgrym mwyaf poblogaidd ar gyfer cefnogaeth bellach gan amgueddfeydd ar yr un thema – astudiaethau achos yn archwilio cyfranogaeth hir dymor pobl ifanc mewn amgueddfeydd e.e. drwy aelodaeth ar banel ieuencid. Byddai hon yn ffordd weddol hawdd i Kids in Museums gefnogi sefydliadau. Cafwyd ceisiadau eraill am gynlluniau marchnata a chymorth i bennu grwpiau yn yr ardal.

'Byddai unrhyw wybodaeth neu astudiaethau achos yn ddefnyddiol – yn sylfaenol, byddai arweiniad manwl i arferion gorau yn wych!'

SWYDDOG DYSGU, CANOLFAN DYLAN THOMAS

Arts Award

Dywedodd ychydig dros hanner ymatebwyr yr arolwg y byddent yn ystyried cysylltu eu Diwrnod Meddiannu gydag Arts Award yn y dyfodol, dywedodd y gweddill nad oeddent yn siŵr ond ni chafwyd ateb 'na' gan unrhyw un. Roedd y prif reswm am fod yn ansicr yn ymwneud â pheidio teimlo eu bod yn gwybod digon am yr Arts Awards. Fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiad yma, mae nifer fawr o amgueddfeydd wedi cael gafael ar y ffeithlen Arts Award a Diwrnod Meddiannu a gynhyrchwyd eleni, felly mae'n amlwg bod awydd mawr i ganfod rhagor.

'Angen canfod rhagor amdano a sut y byddai'n cysylltu â ni fel canolfan ganfod gwyddonol yn hytrach nag amgueddfa.'

SWYDDOG ADDYSG, TECHNIQUEST GLYNDŴR

Yn unol â'r cwestiwn blaenorol, syniadau am gefnogaeth sy'n ymwneud â dysgu rhagor am Arts Award. Roedd rhai pobl yn rhoi'r argraff eu bod yn gwybod o ble i gael yr wybodaeth yma – *'Mae fy swyddog dysgu wedi gwneud pethau gyda'r Arts Award felly mae'n debyg mai'r cwbl sydd ei angen yw i minnau a hithau gael sgwrs'*. Gofynnodd rai pobl am sesiynau hyfforddi neu ddim ond yr amser i ystyried sut y gallent wneud iddo weithio. Aeth staff o'r Arts Award i'r ddau gyfarfod rhannu eleni a byddai'n

to demonstrate how Taking Over Day can work with Arts Award.

'I think I need to know more about Arts Award as we are a small staff and would need to understand the amount of work involved plus implications on budget for materials, artists etc.'

MUSEUM DEVELOPMENT MANAGER,
ROYAL WELSH FUSILIERS MUSEUM

SUMMARY

Taking Over Day continues to grow in both size and scope, with more organisations taking part than ever before, providing unique, powerful experiences for young people and introducing them to new cultural venues. Teen Twitter Takeover has become a popular event and the notion of 'More Than a Day' is starting to take hold. A significant number of museums now choose to offer Taking Over Day experiences to the most disadvantaged children in Communities First clusters, recognising the dramatic difference that these experiences can make to young people.

Taking Over Day allows and encourages museums to think differently, to challenge themselves and take risks. They try new activities and methods and reach out to new visitors and partners. There is evidence that the involvement of children and young people has real value to their organisation, helping them develop their practice and bring new ideas and plans to life.

syniad da i ailadrodd hyn eto yn ogystal ag edrych am gyfleoedd eraill i ddangos sut y gall y Diwrnod Meddiannu weithio gydag Arts Award.

'Dw i'n meddwl bod angen i mi wybod mwy am yr Arts Award am ein bod yn staff bychan a byddai angen i ni ddeall faint o waith sy'n ofynnol, a'r goblygiadau ar y gyllideb o ran cael deunyddiau, artistiaid ac ati.'

RHEOLWR DATBLYGU AMGUEDDFA,
AMGUEDDFA FFIWSILWYR BRENHINOL CYMRU

CRYNODEB

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n parhau i dyfu mewn maint a chwmpas, gyda mwy o sefydliadau'n cymryd rhan nag erioed o'r blaen, gan ddarparu profiadau unigryw a phwerus i bobl ifanc a'u cyflwyno i safleoedd diwylliannol newydd. Mae'r digwyddiad Meddiannu'r Twitter gan Bobl Ifanc wedi dod yn ddigwyddiad poblogaidd ac mae'r syniad o 'Fwy na Diwrnod' yn dechrau magu gwreiddiau. Mae nifer sylweddol o amgueddfeydd erbyn hyn yn dewis cynnig profiadau Diwrnod Meddiannu i'r plant mwyaf difreintiedig mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan gydnabod y gwahaniaeth dramatig y gall y profiadau hyn eu gwneud i bobl ifanc.

Mae'r Diwrnod Meddiannu'n caniatáu ac yn annog amgueddfeydd i feddwl mewn ffordd wahanol, i'w herio eu hunain a chymryd risgiau. Maent yn rhoi cynnig ar weithgareddau a dulliau newydd ac yn estyn allan i ymwelwyr a phartneriaid newydd. Mae tystiolaeth i ddangos bod sicrhau cyfranogaeth gan blant a phobl ifanc yn ychwanegu gwerth go iawn i'w sefydliad, gan eu helpu i ddatblygu eu harferion a dod â syniadau a chynlluniau newydd yn fyw.

RECOMMENDATIONS

Recommendations for the future direction of the project are as follows:

- Continue to promote More Than a Day – support organisations to understand the value of this to their organisation as well as the young people and work with partners such as Arts Award and People's Collection Wales (linking to Digital Heritage Stations) to highlight routes to embed Taking Over Day
- Rename the programme as Takeover Day and revise the communications strategy to emphasize:
 - flexibility of Taking Over Day
 - the value of linking Taking Over Day to strategic plans and audience development
- Increase human resources to improve participation and support for museums in North Wales, particularly targeting those who have not taken part before
- Continue to encourage museums to work with Communities First groups and build their confidence to work with the most disadvantaged young people
- Strengthen the monitoring of outcomes for Taking Over Day participants, including Communities First targets
- Actively support the development of a youth voice within museums – produce resources, organise support and training events, widely promote the 'Ten Top Tips' resource
- Work with umbrella organisations such as CADW and the National Trust to encourage participation in Taking Over Day and Teen Twitter Takeover and develop additional resources, e.g. the Welsh Baccalaureate Challenge
- Grow and diversify the volunteering programme, working with partners such as Young Critics to offer a range of opportunities for volunteers

ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion am gyfeiriad y prosiect yn y dyfodol:

- Parhau i hybu Mwy na Diwrnod – cefnogi sefydliadau i ddeall gwerth hyn i'w sefydliadau yn ogystal â'r bobl ifanc a gweithio gyda phartneriaid megis Arts Award a Chasgliad Pobl Cymru (yn cysylltu gyda Gorsafoedd Treftadaeth Digidol) i amlygu llwybrau i gynnwys y Diwrnod Meddiannu
- Newid enw'r rhaglen i'r Diwrnod Meddiannu ac adolygu'r strategaeth gyfathrebu i bwysleisio:
 - hyblygrwydd y Diwrnod Meddiannu
 - gwerth cysylltu'r Diwrnod Meddiannu â chynlluniau strategol a datblygu cynulleidfa
- Cynyddu adnoddau dynol i wella cyfathrebiad a chefnogaeth i amgueddfeydd yng Ngogledd Cymru, gan dargedu'n arbennig y rheiny sydd heb gymryd rhan o'r blaen
- Parhau i annog amgueddfeydd i weithio gyda grwpiau Cymunedau yn Gyntaf ac adeiladu eu hyder i weithio gyda'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig
- Cryfhau'r ffordd y mae canlyniadau cyfranogwyr y Diwrnod Meddiannu'n cael eu monitro, gan gynnwys targedau Cymunedau yn Gyntaf
- Cefnogi datblygiad llais yr ifanc yn weithredol o fewn amgueddfeydd – cynhyrchu adnoddau, trefnu cefnogaeth a digwyddiadau hyfforddi, hybu'r adnodd 'Deg Awgrym Gorau' yn eang
- Gweithio gyda sefydliadau ymbarél megis CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i annog cyfranogaeth yn y Diwrnod Meddiannu a'r gweithgaredd Meddiannu'r Twitter gan Bobl Ifanc a datblygu adnoddau ychwanegol e.e. Sialens Bagloriaeth Cymru
- Tyfu ac arallgyfeirio'r rhaglen wirfoddoli, gweithio gyda phartneriaid megis Beirniaid Ifanc i gynnig ystod o gyfleoedd i wirfoddolwyr

LIST OF ORGANISATIONS TAKING PART IN 2015

RHESTR O'R SEFYDLIADAU FU'N CYMRYD RHAN YN 2015

Abergavenny Museum / Amgueddfa y Fenni
Blaenavon Ironworks / Gwaith Haearn Blaenafon
Big Pit National Coal Museum / Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru
Caernarfon Castle / Castell Caernarfon
Caerphilly Castle / Castell Caerffili
Castell Coch / Castell Coch
City & County of Swansea – Pride in Penderry Community Museum of Memories
Criccieth Castle / Castell Cricieth
Cyfarthfa Castle Museum and Art Gallery / Amgueddfa Cyfarthfa Castle ac Oriel
Denbigh Castle / Castell Dinbych
Dylan Thomas Centre / Canolfan Dylan Thomas
Erddig – National Trust / Erddig Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Glamorgan-Gwent Archaeological Trust / Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
Firing Line: Cardiff Castle Museum of the Welsh Soldier / Firing Line: Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd
Glamorgan Archives / Archifau Morgannwg
Gower Landscape Partnership / Partneriaeth Tirwedd Gŵyr
Gwalia Housing / Gwalia Homes
Gwynedd Archives Service / Archifdai Gwynedd
Gwynedd Museum and Art Gallery, Bangor / Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor
Llandudno Museum / Amgueddfa Llandudno
Llanelly House / Plas Llanelly
Merthyr Tydfil Public Libraries / Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful
National Museum Cardiff / Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
National Roman Legion Museum / Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
National Slate Museum / Amgueddfa Lechi Cymru
National Trust Gower / Gŵyr Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Waterfront Museum / Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Wool Museum / Amgueddfa Wlân Cymru
Newtown Area Library / Llyfrgell Y Drenewydd
Oriell Ynys Môn / Oriell Ynys Môn
Plas Mawr
Pontypool Museum / Amgueddfa Pont-y-pŵl
Raglan Castle / Castell Rhaglan
Rhuddlan Castle / Castell Rhuddlan
Royal Welsh Fusiliers Museum / Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
St Fagans National History Museum / Sain Fagan Amgueddfa Werin Cymru
Swansea Museum / Amgueddfa Abertawe
Techniquest Glyndwr / Techniquest Glyndŵr
Tenby Museum and Art Gallery / Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-Pysgod
The People's Collection Wales / Casgliad y Werin Cymru
Tintern Abbey / Abaty Tyndyrn
West Glamorgan Archives / Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
Winding House / Y Tŷ Weindio
Wrexham County Borough Museum / Amgueddfa Wrecsam
Wrexham Libraries / Gwasanaeth Llyfrgell Wrecsam



www.kidsinmuseums.org.uk

Taking Over Day / Diwrnod Meddiannu
Kids in Museums 2015

REGISTERED CHARITY NUMBER / RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG | 123658